# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 04.06.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr J.R.Jones (Cadeirydd); W.Tudor Owen; Gwilym Williams
**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**
**Ymgeisydd:** Mr James Goodman (Rheolwr y Ganolfan); Mr Simon Dale (Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig)

**Gwrthwynebwyr:** Cynghorydd June Marshall (ar ran Cyngor Dinas Bangor; Dr. Mark Hancock; Ms Sheila M. Roberts; Mr Glyn H Jones (ar ran Ms E. Roblyn); Ms Heather McLeay.

**Aelod Lleol:** Cynghorydd J.W.Meredith, yn siarad ar ran Ms N. Mullally

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO AR GYFER CANOLFAN DATBLYGU RHEOLI BUSNES, COLEG Y BRIFYSGOL, BANGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan Mr James Goodman ar ran Canolfan Rheoli Busnes, Ffordd y Coleg, Bangor, am Drwydded Eiddo dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 i ganiatau dramau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dawns, darpariaeth bwyd poeth a chyflenwi alcohol, yr oriau yn amrywio, gyda'r eiddo ar agor i'r cyhoedd am 24 awr y dydd. Adroddwyd i dderbyn ymateb gan y Gwasanaeth Tân yn datgan nad oedd gwrthwynebiad i'r cais, a llythyrau oddiwrth Cyngor Dinas Bangor ac ar ran nifer o drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais ar sail y perygl o niwsans cyhoeddus

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Ar ddechrau'r cyfarfod, adroddodd yr ymgeisydd i'r cais gwreiddiol gael ei ddiwygio o ran oriau a manylion eraill, ond nad oedd hynny wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Eglurodd y Rheolwr Trwyddedu i'r cais diwygiedig gael ei gyflwyno i'r gwrthwynebwyr a chael ei wrthod, ac felly yn ôl y drefn gyfreithiol y cais gwreiddiol sy'n sefyll i'w ystyried, ond bod rhyddid i'r ymgeisydd gyflwyno'r diwygiadau i'r Is-bwyllgor yn ystod y gwrandawiad.

Rhoddwyd cyfle i'r gwrthwynebwyr gefnogi'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr a chyflwynwyd y pwyntiau canlynol:

- Saif y Ganolfan yng nghanol ardal breswyl dawel, lle triga nifer o henoed a theuluoedd gyda phlant, a cheir Cartref Preswyl ar gyfer yr henoed heb fod nepell o'r safle

- Mae'r Ganolfan yn edrych dros gaeau a fynychir yn arbennig gan drigolion y Ddinas oherwydd ei leoliad braf, ei awyrgylch heddychlon, a'i fywyd gwyllt
- Mae tystiolaeth yn bodoli bod swn yn cario'n hawdd ac ymhell dros yr ardal pan gynhelir adloniant yn yr awyr agored
- Nid oes gwrthwynebiad i'r cais i werthu alcohol, dim ond i oriau'r cais ac i chwarae cerddoriaeth tu allan i'r adeilad
- Mae'r gymdogaeth yn cefnogi'r fenter ac yn awyddus i'w weld yn llwyddo
- Mynegwyd pryder am y bwriad i roi caniatad i drydydd parti gael cyfrifoldeb dros gyflenwi alcohol a bwyd i'r cyhoedd ar achlysuron arbennig
- Dyfynwyd achlysur y 'Summer Ball' fel tystiolaeth nad oedd yn bosibl i gynnal sgwrs ddau gan medr i ffwrdd oherwydd lefel uchel yr adloniant, ond bod y trigolion yn oddefgar gan mai unwaith y flwyddyn y cynhelir y digwyddiad hwnnw
- Cyfeiriwyd at gyfarwyddyd gan Senedd Ewrop yn annog trigolion i warchod llecynnau tawel o fewn ardaloedd poblog gan eu bod yn prinhau
- Mynegwyd pryder ar ran aelodau Cyngor Dinas Bangor am sefydlu cynsail peryglus os caniateir trwydded 24ain awr. Er bod cefnogaeth diffuant i'r fenter, eto ni fyddai'r trigolion yn dymuno ei weld yn datblygu ar ffurf gwesty, ac mae pryder cryf am y perygl o niwsans cyhoeddus i'r trigolion cyfagos
- Cyfeiriwyd i'r arwyddion a roddwyd ar y safle ac yn y wasg i hysbysebu'r cais, gan gwestiynu eu bod wedi eu harddangos yn ôl cyfarwyddyd y Ddeddf

Wrth ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau, cyflwynodd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Dilynwyd cyfarwyddyd y Ddeddf i leoli'r arwyddion ar y safle ac yn y papur lleol (y Chronicle)
- Nid oes bwriad i reoli'r Ganolfan ar linellau tebyg i dafarn neu glwb nos
- Nid yw'n fwriad i gynnal gweithgareddau'n aml gyda'r oriau hwyr – achlysurol iawn yn unig fyddai hynny
- Rheolir y Ganolfan gan gwmni preifat ar sail clwb busnes ac nid yw'n fwriad i fod ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol, ond yn hytrach i westeion yn unig
- 17 ystafell wely sydd ar gael ar hyn o bryd, gyda chynllun i ychwanegu tua 35 arall yn y dyfodol
- Mae'r Rheolwr yn awyddus i gydweithio gyda swyddogion Iechyd yr Amgylchedd i sefydlu lefel swn derbyniol o'r offer a ddefnyddir

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Panel, nodwyd:-

- mai 200 yw'r mwyafrif o bersonnau ganiateir yn yr adeilad, neu 120 yn eistedd. Mae lle i 60 yn y bwyty
- y dileir y cymal yn Adrannau L ac M o'r cais sy'n cyfeirio at y 'Summer Ball' a'r gwyliau statudol
- y mynychir cyrsiau hyfforddiant i sicrhau gwarchod plant rhag niwed
- y darperir 16 o afleoedd parcio tu allan i'r adeilad, gyda 34 pellach tu allan i Neuadd John Phillips – gyda bar i wahardd defnydd heb awdurdod o'r safle
- rhai diwygiadau i'r oriau gyflwynwyd yn y cais gwreiddiol, ac ystyriwyd rhain wrth drafod y cais
- mai gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr preswyl y Ganolfan, staff y Brifysgol a'u gwesteion hwy a ddarperir yma yn hytrach na'r cyhoedd yn gyffredinol

Mewn ymateb i bwyntiau penodol, adroddodd y Rheolwr Trwyddedu a'r Swyddog Priodoldeb:

- bod tystiolaeth yn bodoli am ddilyn y drefn ynghylch hysbysu'r cyhoedd o'r cais, ac mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd, yn hytrach na swyddogion y Cyngor, yw dilyn y drefn yn gywir. Rhoddir gwybodaeth i'r Heddlu am bob cais ac mae'r heddlu lleol yn gwirio bod yr

arwyddion mewn lle, neu hysbysu swyddogion y Cyngor. Os na ddaw'r Heddlu i gysylltiad, mae cymerir bod popeth yn ei le
- ni chaniateir 'marquee' o gwbl oherwydd na chynhwyswyd hyn ar y cynllun

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a chan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:
- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed,

**PENDERFYNWYD caniatau Trwydded Eiddo i Ganolfan Datblygu Rheoli Busnes, Ffordd y Coleg, Bangor gyda'r amodau canlynol:-**

**a) Dramau rhwng yr oriau 08.00 – 23.00**
**b) Ffilmiau rhwng yr oriau 08.00 – 24.00**
**c) Cerddoriaeth fyw o 08.00 - 23.00 tu allan; 08.00 - 24.00 tu mewn**
**d) Cerddoriaeth wedi ei recordio o 08.00 – 23.00 tu mewn yn unig**
**e) Perfformiadau dawns o 08.00 – 23.00 tu allan; 08.00 – 24.00 tu mewn**
**f) Unrhyw ddarpriaeth tebyg i c), d) neu e) uchod: o 08.00 – 23.00 tu allan; 08.00 – 24.00 tu mewn**
**g) Darpariaeth ar gyfer creu cerddoriaeth o 08.00 – 24.00 tu mewn yn unig**
**h) Darpariaeth cyfleusterau ar gyfer dawnsio o 08.00 – 24.00**
**i) Darpariaeth ar gyfer adloniant tebyg i g) neu h) uchod: o 08.00 – 24.00 tu mewn yn unig**
**j) Cyflenwi bwyd poeth o 23.00 – 24.00 tu allan; 23.00 – 01.00 tu mewn**
**k) Gwerthu alcohol o 08.00 – 24.00 tu allan; 08.00 – 01.00 tu mewn**
**l) Oriau agor i'r cyhoedd o 08.00 – 01.30**
**m) Manylion lefel swn i'w gytuno gyda swyddogion Iechyd yr Amgylchedd**
**n) Gwerthu alcohol i breswylwyr y Ganolfan, staff y Brifysgol a'u gwesteion yn unig**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu i bawb a gymerodd rhan yn y cyfarfod yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, a'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw. Hefyd hysbysodd y gwrthwynebwyr o'r hawl i ofyn am adolygiad o'r drwydded pe byddai tystiolaeth nad yw'r amodau yn cael eu cadw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am a daeth i ben am 12.50